monmouthshire
sir fynwy

Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 8 Ionawr 2020

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 16eg Ionawr, 2020 at 2.00 pm,
## Council Chamber - Council Chamber

# AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | CYN AGENDA - ARWYDDO CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG | |
| 2. | Ymddiheuriadau am absenoldeb | |
| 3. | Datganiadau o Fuddiant | |
| 4. | Cwestiynau'r Cyhoedd | |
| 5. | Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau | 1 - 2 |
| 6. | Adroddiad y Prif Swyddog dros Fenter | |
| 6.1. | Adnewyddu Canolfan Hamdden Cil-y-coed ac adnewyddu Campfa a Chaffi Cas-gwent | 3 - 20 |
| 7. | Adroddiad y Pennaeth Polisi a Llywodraethu | |
| 7.1. | Dyddiadur Cyfarfodydd 2020 - 2021 | 21 - 32 |
| 8. | Adroddiad y Prif Swyddog dros Adnoddau | |
| 8.1. | Cynllun Gostwng Treth y Cyngor 2020/2021 | 33 - 36 |
| 9. | Rhestr o Gynigion | |

| | | |
|---|---|---|
| **9.1.** | **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Batrouni**<br><br>Mae'r grŵp Llafur yn credu bod anghydraddoldeb a thlodi'n broblemau mawr yn Sir Fynwy ac y dylai'r cyngor ymgyrchu am Grant Anghydraddoldeb Incwm. (Tystiolaeth ychwanegol wedi ei atodi) | 37 - 58 |
| **9.2.** | **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Batrouni**<br><br>Bod y Cyngor hwn yn siomedig bod y Weinyddiaeth Dorïaidd wedi penderfynu cau Mounton House, yn enwedig heb unrhyw flaen gynllun ar gyfer y safle yn ei gyfanrwydd na'r ddarpariaeth o wasanaethau addysgiadol ar gyfer plant sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (SEBD). Wrth symud ymlaen bydd y Cyngor yn:<br><br>1. Gosod cyfyngiadau ar safle Mounton House sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddefnydd neu ailddatblygu gael ei ganiatáu at ddibenion addysgiadol neu er budd y gymuned leol er mwyn sicrhau nad yw'r weinyddiaeth bresennol nac unrhyw weinyddiaeth yn y dyfodol yn gwerthu'r safle ar gyfer adeiladu tai;<br><br>2. Dod â chynlluniau parthed y cynlluniau tymor hir ar gyfer plant SEBD yn y gymuned ymlaen i'r flwyddyn galendr hon. | |
| **9.3.** | **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir P. Fox**<br><br>Y Cyngor Hwn:<br><br>Nodi, gyda rhwystredigaeth, bod Cyngor Sir Fynwy'n gyson yn derbyn y cyllid isaf y pen o bob awdurdod lleol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Cydnabod y pwysau ariannol sylweddol ar wasanaethau awdurdod lleol, yn enwedig o ran gofal cymdeithasol ac anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Mynegi siom eithriadol bod disgwyl i Sir Fynwy, yn 2020-21, dderbyn y setliad gwaethaf o bob cyngor arall, gyda chynnydd o 3% yn unig o'i gymharu â 5.4% mewn awdurdodau cyfagos.<br><br>Galw ar yr Arweinydd a'r Cabinet i barhau i gyflwyno sylwadau cadarn i Lywodraeth Cymru am gyllid gwaelodol er mwyn lleihau anghydraddoldeb a chomisiynu adolygiad o fformiwla cyllido awdurdodau lleol, sy'n methu ag adnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni gwasanaeth mewn sir wledig fel Sir Fynwy. | |

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | **Cwestiynau Aelodau:** | |
| **10.1.** | **Gan y Cynghorydd Sir M. Groucutt i'r Cynghorydd Sir R. John, Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a MonLife**<br><br>Yn wyneb yr eitem ar ymgynghoriad ar gyllidebau sy'n cynnig bod gostyngiad o 2.5% i gyllidebau ysgolion, beth fyddai effaith ariannol uniongyrchol toriad o'r fath ar gyllidebau ein pedair ysgol uwchradd? A oes unrhyw ystyriaeth wedi ei roi i'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar ysgolion a'r ddarpariaeth y mae modd iddynt ei chynnig, yn enwedig ar gyfer ein disgyblion mwyaf anghenus ac agored i niwed? | |
| **10.2.** | **Gan y Cynghorydd Sir M. Groucutt i'r Cynghorydd Sir R. Greenland, Aelod Cabinet dros Arloesedd, Menter a Hamdden**<br><br>A yw'r aelod cabinet yn bryderus ynglŷn â'r diffyg ymgynghori ymddangosiadol rhwng swyddogion y Cyngor hwn a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ynglŷn â chynigion a gyflwynwyd gan Awdurdod Tai Sir Fynwy i adeiladu ar dir gyferbyn â ward Lansdown, tir sydd o fewn y Parc Cenedlaethol? Mae'r cynnig yn cynnwys 70% o dai fforddiadwy a byddai gyferbyn â wardiau sydd â thlodi ac ynysigrwydd cymdeithasol sylweddol ynddynt yn barod. A fyddai datblygiad o'r fath, mewn ardal, sydd â'i ffyrdd presennol yn ei wneud yn anghyraeddadwy o ran trafnidiaeth gyhoeddus a thraffig masnachol yn creu cymuned 'allan o olwg, allan o feddwl' a fyddai'n gwneud y problemau cymdeithasol a wynebir yng Ngogledd y Fenni'n waeth? A fyddai modd iddo gadarnhau y bydd y cyngor yn gwrthwynebu datblygiad o'r fath pe byddai Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynd ymhellach na Cham 2 gyda'r cynnig yn dal yn ei Gynllun Datblygu Lleol sy'n cael ei ddatblygu. | |
| **11.** | **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24ain o Hydref 2020** | 59 - 68 |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

P. Clarke
D. Batrouni
J.Becker
D. Blakebrough
L.Brown
A.Davies
D. Dovey
L.Dymock
A. Easson
R. Edwards
D. Evans
M.Feakins
P.A. Fox
R.J.W. Greenland
M.Groucutt
L. Guppy
R. Harris
J. Higginson
G. Howard
S. Howarth
R.John
D. Jones
L.Jones
P. Jones
S. Jones
S.B. Jones
P. Jordan
M.Lane
P. Murphy
P.Pavia
M. Powell
J.Pratt
R.Roden
V. Smith
B. Strong
F. Taylor
T.Thomas
J.Treharne
J.Watkins
A. Watts
A. Webb
K. Williams
S. Woodhouse

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.